**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 25 Mawrth 2015

**Aelod/Swyddog Arweiniol:** Pennaeth Cyllid ac Asedau

**Awdur yr Adroddiad:** Prif Gyfrifydd

**Teitl:** Cynllun Archwilio 2015 - Cyngor Sir Ddinbych

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae adroddiad o'r enw 'Cynllun Archwilio 2015 - Cyngor Sir Ddinbych' wedi cael ei baratoi gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac mae'n atodedig. Mae'r adroddiad yn amlinellu rhaglen waith wedi'i threfnu ar gyfer rhaglen archwilio perfformiad ac archwilio ariannol Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at faterion megis y ffi ar gyfer y gwaith, manylion o ran y tîm archwilio a'r amserlen ar gyfer y gwaith.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'n ofynnol i'r archwilwyr allanol baratoi a chyflwyno'r adroddiad hwn er mwyn cyflawni eu gofynion o dan safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### Cynllun Archwilio 2015 - Cyngor Sir Ddinbych

Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi amlinelliad i'r Cyngor o raglen waith archwilio perfformiad ac archwilio ariannol. Mae'r rhaglen archwilio ariannol yn cwmpasu'r gwaith o ran datganiadau ariannol 2014-15. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am y dull archwilio, gan gynnwys y risgiau archwilio allweddol sydd wedi'u nodi yn ystod y broses gynllunio cychwynnol a'r camau bwriedig i fynd i'r afael â nhw. Bydd y gwaith archwilio ariannol ar y meysydd risg hyn yn cael eu defnyddio i lywio barn archwilio ar y datganiadau ariannol.

Mae'r rhaglen waith archwilio perfformiad yn cynnwys eu gwaith o ran y Mesur Llywodraeth Leol. Mae gwaith archwilio ariannol a pherfformiad hefyd yn adolygu'r trefniadau a roddwyd ar waith gan y Cyngor i sicrhau

darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r gwasanaeth archwilio yn ddarpariaeth statudol. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig, o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i archwilio ac ardystio datganiadau ariannol y Cyngor. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig hefyd fod yn fodlon bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r ffioedd ar gyfer gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â'r rhaglen waith archwilio ariannol a pherfformiad wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Ddim yn berthnasol i argymhellion yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghori a wnaed?**

Mae cynnwys bras yr adroddiad wedi cael ei drafod gyda'r Pennaeth Cyllid ac Asedau ac uwch aelodau o'r Adran Gyllid.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r archwiliad blynyddol yn ddarpariaeth statudol. Mae'r ffioedd yn ymrwymiad cyllideb presennol i'r awdurdod.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dylai'r broses archwilio amlygu unrhyw risgiau sylweddol ac ymateb y rheolwyr i fynd i'r afael neu leihau risg neu effaith.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn i'r Cyngor sefydlu trefniadau rheoli ariannol priodol. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i archwilio ac ardystio cyfrifon y cyngor a rhaid iddo fod yn fodlon bod y cyfrifon wedi cael eu cwblhau yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.